# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 25 Ebrill 2012** |
| Amser: | **09:31** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300003_25_04_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Gwyn R Price**<br>**Ken Skates**<br>**Rhodri Glyn Thomas**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Jonathan Ford, Cymdeithas Bêl-droed Cymru**<br>**John Deakin, Uwch Gynghrair Cymru**<br>**Neil Ward, Ymddiriedolaeth Bêl-Droed Cymru**<br>**Tom Morgan, Cyn-chwaraewr a cyn-rheolwr Uwch Gynghrair Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Marc Wyn Jones (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r Pwyllgor. Nid oedd dim ymddiheuriadau.

Gwnaeth y Cadeirydd ddatganiad ei bod yn ddeiliad tocyn tymor Clwb Pêl-droed y Rhyl.

## 2. Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru - sesiwn dystiolaeth
Croesawodd y Cadeirydd Jonathan Ford a John Deakin o Gymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW). Holodd yr Aelodau y tystion.

Cytunodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am:

- Y gefnogaeth bresennol a gaiff ei darparu gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol yng Nghymru i uwch gynghrair Cymru ac awgrymiadau ar gyfer cefnogaeth yn y dyfodol.
- Y gwaith sy'n cael ei wneud o ran mynd i'r afael â hiliaeth ac ymestyn allan i gymunedau pêl-droed mwy amrywiol fel menywod, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

## 3. Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru - sesiwn dystiolaeth
Croesawodd y Cadeirydd Neil Ward o Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Holodd yr Aelodau y tystion.

Cytunodd yr Ymddiriedolaeth Bêl-droed i ddarparu rhagor o wybodaeth am y ganran o fenywod a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd â chymwysterau hyfforddi.

## 4. Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru - sesiwn dystiolaeth
Croesawodd y Cadeirydd Tom Morgan, rheolwr Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth. Holodd yr Aelodau y tyst.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:
Cytunodd y Pwyllgor i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6.

## 6. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol): Ystyried yr adroddiad drafft
Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

## 7. Papurau i'w nodi
Nodwyd y papurau.

**TRAWSGRIFIAD**

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.